Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 28.10.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Diwrnodau HMS cenedlaethol ychwanegol 2022 i 2025** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig i ddarparu diwrnodau HMS cenedlaethol ychwanegol 2022 i 2025 yn debygol o gael effaith gadarnhaol gan alluogi'r proffesiwn addysg i gael mwy o amser i ymgysylltu â dysgu proffesiynol tra caiff newidiadau i'r system addysg eu cyflwyno a'u gwreiddio.

Fodd bynnag, teimlwn ei bod yn werth ystyried y pwyntiau canlynol:

- Yn gyffredinol, dylai amseriad diwrnodau HMS ystyried yn ofalus yr effaith ar ddysgwyr a'u dysgu.
- Dylai amseriad y diwrnod HMS osgoi ymestyn gwyliau'r haf gan y byddai hyn yn ymestyn seibiant i ddisgyblion o'r ysgol, sydd eisoes yn un hir.
- Sicrhau bod y diwrnod ychwanegol hwn yn cael ei gymryd fel **diwrnod** HMS yn hytrach na chyfres o sesiynau cyfnos i sicrhau ymagwedd â ffocws ar y blaenoriaethau allweddol.
- Dylid lledaenu'r 6 diwrnod HMS arfaethedig ar draws y flwyddyn academaidd
- Dylai pob rhiant gael ei hysbysu mewn modd amserol am ddyddiadau'r HMS i drefnu anghenion gofal plant. Dylai ysgolion gyhoeddi eu rhaglen o ddiwrnodau HMS yn nhymor yr haf ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol.
- Dylai arweinwyr ysgolion sicrhau bod y diwrnod HMS yn cael ei gynllunio'n effeithiol i sicrhau bod gweithgareddau pwrpasol yn cefnogi blaenoriaethau allweddol ac anghenion yr ysgol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylai fod diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol yn ystod blynyddoedd academaidd 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025, er mwyn caniatáu i'r proffesiwn addysg gael rhagor o amser i ymwneud â dysgu proffesiynol wrth i newidiadau i'r system addysg (gan gynnwys mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY)) gael eu rhoi ar waith a'u gwreiddio?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

Mae'r newidiadau i'r system addysg fel y Cwricwlwm i Gymru, y diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a sicrhau tegwch mewn addysg yn newidiadau y mae ysgolion yn parhau i'w gwreiddio, eu datblygu a'u gwerthuso. O ran datblygiad a gwerthuso effeithiol, mae angen amser i'r proffesiwn addysg wneud eu gwaith i sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer disgyblion. Yn ystod arolygiadau, ymweliadau ymgysylltu a gwaith thematig, mae arweinwyr ac athrawon yn amlygu manteision amser ychwanegol i sicrhau bod y newidiadau presennol mewn addysg yng Nghymru yn gallu datblygu'n effeithiol. Mae'r diwrnod ychwanegol wedi bodoli er 2019. Fodd bynnag, gallai'r tarfu o ganlyniad i COVID-19 fod wedi achosi i ysgolion ddefnyddio'r amser ychwanegol i addasu yn unol â gofynion y pandemig yn hytrach na chanolbwyntio ar newidiadau yn y system addysg. Bydd y cynnig yn sicrhau parhad yn yr amser a neilltuir yn barod, a bydd yn helpu ysgolion i sicrhau bod y newidiadau yn cael eu gwreiddio'n llwyddiannus.

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y dylem ddarparu hyblygrwydd i ysgolion o ran amseriad y diwrnod HMS ychwanegol yn ystod blynyddoedd academaidd 2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025? Os ydych yn anghytuno, rhowch fanylion yn y blwch sylwadau ategol.**

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn meddwl y dylid rhoi hyblygrwydd i ysgolion ag amseriad y diwrnod HMS ychwanegol. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i gynllunio a sicrhau bod y diwrnod HMS yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol tra'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol yng nghyd-destun anghenion pob ysgol unigol. Hefyd, dylai hyblygrwydd o'r fath roi cyfleoedd i ysgolion fanteisio ar gymorth allanol a gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill. Fodd bynnag, er ei bod yn bwysig rhoi hyblygrwydd i ysgolion o ran amseriad y diwrnod HMS, teimlwn fod angen i arweinwyr ystyried amseriad gwirioneddol y diwrnod HMS yn ofalus. Teimlwn y dylai ysgolion osgoi ymestyn gwyliau'r haf gan fod hyn yn ymestyn seibiant o'r ysgol, sydd eisoes yn un hir. Hefyd, rydym yn credu y dylid cymryd y diwrnod fel **diwrnod** HMS yn hytrach na chyfres o sesiynau cyfnos i sicrhau ymagwedd â ffocws ar y blaenoriaethau allweddol. Mae gan sesiynau cyfnos botensial i wanhau'r ffocws ar y blaenoriaethau allweddol. Credwn y dylid gwasgaru'r 6 diwrnod HMS arfaethedig trwy gydol y flwyddyn academaidd i sicrhau bod y diwrnodau'n cael eu defnyddio'n effeithiol gan arweinwyr i gynllunio, datblygu a gwerthuso. Ni ddylid eu grwpio gyda'i gilydd gan arwain at seibiannau estynedig i ffwrdd o'r ysgol i ddisgyblion, er enghraifft 2 neu 3 diwrnod ym mis Medi ar ôl egwyl hir dros yr haf. Teimlwn hefyd y dylai ysgolion sicrhau bod eu rhieni'n cael eu hysbysu'n dda, mewn modd amserol, am y dyddiadau HMS i'w galluogi i drefnu anghenion gofal plant.

**Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn orfodol i unrhyw ddiwrnod HMS ychwanegol gael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi ein blaenoriaethau allweddol sef gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau ADY, a sicrhau tegwch yn ein system addysg? Os ydych yn anghytuno, rhowch fanylion yn y blwch sylwadau ategol.**

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Teimlwn ei bod yn synhwyrol y dylai fod yn orfodol i unrhyw ddiwrnod HMS ychwanegol gael ei ddefnyddio i ddarparu dysgu proffesiynol i gefnogi blaenoriaethau allweddol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ysgolion ffocws ar gyfer y diwrnod ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n bwysig caniatáu hyblygrwydd i arweinwyr o fewn y trefniadau hyn i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion dysgu proffesiynol staff o fewn cyd-destun penodol yr ysgol. Credwn hefyd y byddai'n fuddiol i ysgolion rannu ffocws eu diwrnodau HMS gyda rhieni. Dylai ysgolion gyhoeddi eu rhaglen o ddiwrnodau HMS yn nhymor yr haf ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol a darparu gwybodaeth am sut mae hyn yn cysylltu â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

**Cwestiwn 4 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol cenedlaethol yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn**

**benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Sylwadau ategol**

Teimlwn y byddai'n fuddiol cynnwys y Gymraeg fel rhan o'r blaenoriaethau cenedlaethol yn unol â'r weledigaeth ar gyfer Cymraeg 2050. Rydym yn meddwl y gallai ysgolion ddefnyddio'r diwrnod HMS i archwilio anghenion staff a'u cynorthwyo i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Gallai fod yn ofynnol rhoi cymorth i ysgolion â darparu hyfforddiant ar y Gymraeg gan y bydd anghenion yn amrywio o un ysgol i'r llall. Bydd yn bwysig teilwra'r cymorth hwn i anghenion unigol, er enghraifft datblygu Cymraeg sgyrsiol sylfaenol, magu hyder yn y Gymraeg ar gyfer pobl eraill a chynorthwyo pobl eraill i ddatblygu adnoddau.

**Cwestiwn 5 – Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Sylwadau ategol**

Fel yr uchod, credwn y byddai'n fuddiol cynnwys y Gymraeg fel blaenoriaeth arall ar gyfer y diwrnod HMS. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol arbennig ar ddatblygu meysydd y Cwricwlwm i Gymru. Yn ystod arolygiadau, os oes problemau â medrau Cymraeg a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg, gwelwn nad yw'r Gymraeg bob amser yn cael ei datblygu'n systematig ac ar lefel briodol i alluogi disgyblion i ddefnyddio'r iaith fel rhan o fywyd bob dydd. Mae hyn yn aml oherwydd diffyg cynllunio a hyder staff i ddefnyddio'r iaith. Felly, gallai fod yn fuddiol i ysgolion ddefnyddio'r ffocws ychwanegol i ddatblygu medrau Cymraeg staff a darpariaeth yn yr ysgol. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd yn gryf â datblygu'r Cwricwlwm i Gymru.

**Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:**

**Sylwadau ategol**

Credwn ei bod yn bwysig fod ysgolion yn sicrhau bod pob rhiant yn cael ei hysbysu'n dda, mewn modd amserol am ddyddiadau'r HMS er mwyn trefnu anghenion gofal plant. Byddai hefyd yn fuddiol iddynt roi gwybod i rieni am ffocws unrhyw ddiwrnodau HMS a sut mae hynny'n diwallu anghenion unigol yr ysgol. Fel arfer, dylid trefnu bod y trefniadau ar gyfer diwrnodau HMS ar gael i rieni yn ystod y tymor cyn y flwyddyn academaidd newydd neu o leiaf dymor ymlaen llaw.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐